# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Tachwedd 2022

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 4)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)285 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.2 SL(6)283 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022**

(Tudalen 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 - Papur 2 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 15 Tachwedd 2022

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.3 SL(6)284 - Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 6 - 7)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 - Papur 3 - Llythyr at y  Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Tachwedd 2022

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.35 - 13.45)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)279 - Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 8 - 10)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 - Papur 4 - Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)280 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2022**

(Tudalennau 11 - 15)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 - Papur 5 - Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)282 - Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022**

(Tudalennau 16 - 19)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**Offerynnau Cyfansawdd y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**3.4 SL(6)278 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2022**

(Tudalennau 20 - 21)

Rheoliadau [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 7 – Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.45 - 13.50)

**4.1 SL(6)272 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 22 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 8 – Adroddiad

LJC(6)-31-22 – Papur 9 – Ymateb Llywodraeth Cymru

LJC(6)-31-22 – Papur 10 – Adendwm i ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

(13.50 - 13.55)

**5.1 WS-30C(6)020 - Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 34 - 41)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 21 Tachwedd 2022

LJC(6)-31-22 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a

Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 21 Tachwedd 2022

LJC(6)-31-22 – Papur 13 – Sylwadau

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.55 - 14.00)

### 6.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

(Tudalennau 42 - 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur x – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 21 Tachwedd 2022

### 6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2022

(Tudalennau 44 - 45)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 23 Tachwedd 2022

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid

(Tudalen 46)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 24 Tachwedd 2022

## 7 Papurau i'w nodi

(14.00 - 14.05)

### 7.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Prisiau Ynni

(Tudalennau 47 - 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 17 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 18 Tachwedd 2022

LJC(6)-31-22 – Papur 18 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 2 Tachwedd 2022

**7.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Caffael**

(Tudalennau 51 – 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 19 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 18 Tachwedd 2022

**7.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU**

(Tudalennau 53 – 54)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 20 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 21 Tachwedd 2022

**7.4 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Prif Weinidog: Ail Brotocol Ychwanegol i'r Confensiwn ar Seiberdroseddu ynghylch Gwell Cydweithredu a Datgelu Tystiolaeth Electronig**

(Tudalennau 55 – 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 21 – Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Prif Weinidog, 21 Tachwedd 2022

LJC(6)-31-22 – Papur 22 – Llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 7 Hydref 2022

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.05)

## 9 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Adroddiad drafft

(14.05 – 14.50) (Tudalennau 59 – 190)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-22 – Papur 23 – Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-31-22 – Papur 24 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 28 Tachwedd 2022

## SL(6)283 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae paragraff 5(1B) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") yn darparu y caiff cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ("awdurdod bilio") gyflwyno hysbysiad i bersonau penodol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â hereditament yn ardal yr awdurdod bilio hwnnw. Mae'r personau hynny'n cynnwys person sy'n cynnal busnes mewn perthynas â'r hereditament hwnnw, o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu disgrifiadau o'r mathau o fusnes a gynhelir gan berson mewn perthynas â hereditament.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff awdurdod bilio beri bod hysbysiad yn cael ei gyflwyno i berson y mae paragraff 5(1D) o Atodlen 9 i'r Ddeddf yn gymwys iddo.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi
**Yn dod i rym ar:** 1 Ebrill 2023

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 28 Tachwedd 2022

## SL(6)284 - Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau hyn") yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ("Deddf 2020").

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu Cynllun ar gyfer rhoi grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 2020 yn pennu'r dibenion y caniateir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol cyffredinol. Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Cynllun. Mae Rhan 3 yn cyfansoddi'r Cynllun ac yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau neu wneud benthyciadau mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi ar ba sail y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau ac maent yn gosod gweithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau. Cyn talu grant neu fenthyciad rhaid bod Gweinidogion Cymru yn fodlon ar y gwariant yr aed iddo, neu yr eir iddo, ac y cydymffurfir ag unrhyw amodau cymeradwyo.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu bod talu grant neu fenthyciad yn amodol ar y ceisydd yn cadw cofnodion perthnasol ac yn hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau. Gall Gweinidogion Cymru amrywio, atal dros dro a dirymu'r penderfyniad i gymeradwyo cais am grant neu fenthyciad a chânt, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu grant neu fenthyciad os na chaiff rhai amodau penodol eu bodloni (gydag unrhyw symiau sydd heb eu had-dalu yn cael eu hadennill yn y pen draw fel dyled sifil).

Caniateir cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau'n ymwneud â cheisiadau am grantiau a benthyciadau a hysbysiadau am amrywiadau, ataliadau dros dro a dirymiadau. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am eu penderfyniad yn dilyn sylwadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth orfodi i swyddogion gorfodi morol a benodir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009").

Mae a wnelo'r swyddogaeth â gorfodi unrhyw droseddau posibl a gyflawnir mewn perthynas â chais am grant neu fenthyciad o dan y Cynllun (er enghraifft, trosedd o dan Ddeddf Twyll 2006). Caiff pwerau gorfodi perthnasol ar gyfer swyddogion gorfodi morol o dan Ran 8 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 eu cymhwyso hefyd at ddibenion y swyddogaeth hon.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli cyfres flaenorol o reoliadau drafft a osodwyd ar 27 Medi 2022 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ("y Pwyllgor") yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2022, pan gyhoeddwyd adroddiad a oedd yn cynnwys nifer o bwyntiau adrodd. Mae'r Rheoliadau diwygiedig hyn wedi'u gosod i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod asesiad effaith rheoleiddiol manwl wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn (mewn ymateb i bwynt adrodd 6 yn ei adroddiad blaenorol).

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Pysgodfeydd 2020
**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi
**Yn dod i rym ar:** 1 Rhagfyr 2022

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 28 Tachwedd 2022

## SL(6)285 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Diben Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (y “**Rheoliadau**”) yw nodi'r categorïau o bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru yng Nghymru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r Rheoliadau yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022, ac yn mynd i'r afael â'r pwyntiau technegol a godwyd gan y Pwyllgor wrth graffu ar y rheoliadau hynny.

Ni chaiff pobl sydd wedi'u hanghymhwyso o dan y Rheoliadau hyn weithredu fel gwarchodwyr plant yng Nghymru, darparu gofal dydd na bod ynghlwm wrth reoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd.

Mae’r Rheoliadau’n diweddaru’r rhestr o droseddau, gorchmynion a phenderfyniadau sy’n anghymhwyso rhywun rhag gweithio mewn gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn cynnwys rhagor o droseddau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sy'n ymddangos ar hyn o bryd yn y rheoliadau cyfatebol sy'n gymwys yn Lloegr. Mae’r rhain yn cynnwys troseddau sy’n gysylltiedig â voyeuriaeth a’r defnydd o drais, bygythiadau neu unrhyw fath o orfodaeth i orfodi person arall i briodi.

Mae’r Rheoliadau’n dileu darpariaethau sy’n anghymhwyso pobl rhag cael eu cofrestru i ddarparu gofal plant rheoleiddiedig ar sail y ffaith eu bod yn byw gyda rhywun sydd wedi’i anghymhwyso neu fod rhywun sy’n gweithio yn eu haelwyd wedi’i anghymhwyso. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dileu rhai anghysondebau yn y rheoliadau presennol i sicrhau nad yw pobl sydd wedi bod yn destun Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwylio eu hunain yn y gorffennol yn cael eu hanghymhwyso'n awtomatig rhag cofrestru.

**Rhiant-Ddeddf:** Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
**Fe’u gwnaed ar:** 14 Tachwedd 2022
**Fe’u gosodwyd ar:** 15 Tachwedd 2022
**Yn dod i rym:** yn unol â rheoliad 1(2)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau drafft Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023** |
| **DYDDIAD** | **15 Tachwedd 2022** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Heddiw rwyf yn darparu crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ar Reoliadau drafft Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau"). Rwyf hefyd yn cadarnhau y caiff y rheoliadau, fel y'u drafftiwyd ac fel yr ymgynghorwyd arnynt, eu gosod gerbron y Senedd ac y deuant i rym ar 1 Ebrill 2023 ar yr amod y cytunir arnynt.

Mae ardrethi annomestig yn darparu ffrwd refeniw hanfodol sy'n cyfrannu at gostau gwasanaethau llywodraeth leol, gwasanaethau yr ydym i gyd yn elwa arnynt. Ymgynghorwyd ar ystod o fesurau i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi ardrethi annomestig yn ystod haf 2018, yn dilyn ymarfer casglu tystiolaeth a gynhaliwyd yn 2017. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ystod o fesurau ar 16 Hydref 2018.

Un o'r mesurau hyn oedd cyflwyno pŵer cyfreithiol newydd i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth gan drethdalwyr a thrydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth mewn perthynas ag eiddo, i gefnogi eu rôl yn y gwaith o filio a chasglu ardrethi annomestig.

Cynhaliwyd ymgynghoriad technegol ar ddrafft o'r Rheoliadau rhwng 24 Mehefin a 16 Medi 2022. Roedd hwn yn gofyn am safbwyntiau ynghylch eglurder y Rheoliadau ac am unrhyw sylwadau eraill yn eu cylch. Yn dilyn yr ymgynghoriad, nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau drafftio i'r Rheoliadau.

Mae crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ar gael yn: https://llyw.cymru/rheoliadau-ardrethu-annomestig-drafft-i-fynd-ir-afael-thwyll-ac-osgoi-talu-trethi

Eitem 2.3

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

23 Tachwedd 2022

Annwyl Lesley

Rheoliadau'r Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd yn gofyn i ni gyflymu ein gwaith craffu ar Reoliadau drafft y Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022.

Rydym yn cydnabod y rhesymeg a nodir yn eich llythyr sy'n golygu, os gofynnir i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau drafft ar 29 Tachwedd er mwyn caniatáu i'r cynllun agor cyn diwedd 2022, bydd angen inni gwblhau ein gwaith craffu mewn llai na'r 20 diwrnod a ganiateir i ni o dan y Rheolau Sefydlog.

Mae croeso i chi ysgrifennu atom i gynnig esboniad a gofyn am ein cymorth i gyflymu'r gwaith craffu.

Byddwn ni, a'n swyddogion cymorth yng Nghomisiwn y Senedd, yn gwneud ein gorau i graffu ar y Rheoliadau drafft o fewn yr amser gofynnol.

Fe dynnwn eich sylw at y ceisiadau a gawsom gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i gyflymu ein hystyriaeth o reoliadau sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig, a

chan y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyflymu ein hystyriaeth o reoliadau yn ymwneud â gweithredu *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# SL(6)279 – Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio:

- Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1781) (Cy. 170) ("Gorchymyn 2010"); a
- Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("Gorchymyn 2018").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu darpariaethau yn y Gorchymyn Ffioedd Compartmentau Dofednod sy'n darparu ar hyn o bryd fod Treth ar Werth (TAW) yn cael ei hychwanegu at ffioedd a godir o dan y Gorchymyn hwnnw.

Mae hefyd yn cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion mewn perthynas â Gorchymyn 2018.

Mae erthygl 2 yn diwygio Gorchymyn 2010 er mwyn hepgor y geiriau "+ TAW" bob tro y maent yn digwydd yn yr Atodlen. O'r herwydd, ni fydd TAW yn daladwy bellach mewn cysylltiad â'r ffioedd a nodir yn y tabl.

Mae erthygl 3 yn diwygio Gorchymyn 2018 er mwyn rhoi, yn lle'r Atodlen, Atodlen newydd sy'n darparu ar gyfer ffioedd uwch ar gyfer trwyddedu mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid.

Mae'r Atodlen newydd yn darparu fel a ganlyn.

- Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt yn esempt. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach.
- Mae Tabl 2 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt yn esempt. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach.

- Mae Tabl 3 yn nodi ffioedd atodol sy’n daladwy am drwyddedu mangreoedd. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach.

Mae erthygl 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad yw’r diwygiadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chais a wneir cyn i’r Gorchymyn hwn ddod i rym.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) (ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft)**

Mae gwahaniaeth rhwng testun Cymraeg a Saesneg erthygl 3(2). Mae’r testun Saesneg wedi’i ddrafftio yn y ffordd arferol wrth gyflwyno diwygiadau i destunau dwy iaith deddfwriaeth ddwyieithog. Mae’n awgrymu i’r darllenydd fod diwygiadau’n cael eu gwneud i destun y ddwy iaith.

Fodd bynnag, nid yw testun Cymraeg erthygl 3(2) yn diwygio testun Cymraeg y diffiniad o “canolfan gasglu” yn erthygl 2 o Orchymyn 2018 gan ei fod eisoes yn gywir. Felly, mae wedi ychwanegu'r geiriau “yn y testun Saesneg” a nodir y geiriau a amnewidiwyd yn Saesneg yn unig. Dyma’r dull cywir pan nad oes ond angen diwygio testun Saesneg deddfiad dwyieithog, fel y bydd testun dwy iaith yr offeryn diwygio yn gwneud yr un newid i destun un iaith yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Dylai testun Saesneg erthygl 3(2) o’r Gorchymyn hwn hefyd fod wedi cynnwys y geiriau “in the English language text” i nodi mai dim ond i destun Saesneg y testun presennol yn erthygl 2 o Orchymyn 2018 y mae’r diwygiad yn cael ei wneud.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau i'r ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â gwasanaethau statudol a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yn unol â Gorchymyn 2010 a Gorchymyn 2018.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) (ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd)**

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn esbonio'r rheswm pam y mae TAW yn cael ei thynnu o'r ffioedd a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2010. Mae'n anodd felly i ddarllenydd ddeall y rhesymeg dros y newid hwn.

At hynny, mae paragraff olaf adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *Due to the lack of Wales specific data has been presented and used to estimate the impact to businesses in Wales, where possible.*

Mae ystyr y paragraff hwn yn aneglur, sy'n ei gwneud yn anodd i'r darllenydd ddeall pa ddata a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr effaith ar fusnesau yng Nghymru, ac a yw'n ddigonol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1 a 3 uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Tachwedd 2022**

# SL(6)280 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau arbed a throsiannol mewn perthynas â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Ar y dyddiad y daw Deddf 2016 i rym (1 Rhagfyr 2022) bydd tenantiaethau a thrwyddedau presennol yng Nghymru yn trosi yn gontractau meddiannaeth ((gydag eithriadau penodol fel y'u nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2016) a byddant yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gyfundrefn ddeddfwriaethol newydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol mewn perthynas â:

- phrosesau penodol sy'n ymwneud â thenantiaethau a thrwyddedau presennol (er enghraifft achosion adennill meddiant) sydd wedi cael eu cychwyn ar y dyddiad y daw Deddf 2016 i rym;
- hawliau penodol sy'n bodoli mewn mathau penodol o denantiaethau cyfredol (er enghraifft cais am welliant) sy'n cael eu cadw fel bod y partïon i'r tenantiaethau presennol hyn yn cael eu trin yn deg pan fydd eu tenantiaeth yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth;
- cadarnhad na fydd darpariaethau penodol sy'n ymwneud â llety dros dro yn berthnasol tan 12 mis ar ôl i Ddeddf 2016 ddod i rym.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Nid yw'n glir pam y mae rhai darpariaethau arbed datganedig, pan nad yw darpariaethau tebyg eraill wedi'u nodi mewn darpariaeth arbed ddatganedig. Byddai'n ddefnyddiol deall pam y mae darpariaethau penodol yn rhai arbed datganedig o dan y Rheoliadau ac a yw Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y ddarpariaeth arbed gyffredinol yn rheoliad 19 lle y mae gwahaniaeth o ran dull drwy beidio â darparu darpariaeth arbed ddatganedig.

Er enghraifft, mae rheoliadau 2(1)(c) i (g) yn cynnwys darpariaethau arbed mewn perthynas â chymhwyso adran 83A o Ddeddf Tai 1985. Mae hyn yn cynnwys rheoliad 2(1)(f) mewn perthynas ag adran 83A(6), sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan adran 83A(4) ei gynnwys. Mae adrannau 83 a 83ZA o Ddeddf Tai 1985 yn cynnwys darpariaethau sy'n pennu gofynion hysbysiadau mewn perthynas ag achosion adennill meddiant. Er bod rheoliadau 2(1)(a) a (b) yn y drefn honno yn cyfeirio at y ddarpariaeth o sylwedd yn yr adrannau hynny, nid oes darpariaeth arbed ddatganedig mewn perthynas â chynnwys hysbysiadau a gynhwyswyd yn yr adrannau hynny.

Ymhellach, mae rheoliad 5(1)(e) yn arbed y cyfan o adran 143G o Ddeddf Tai 1996. Mewn cyferbyniad, mae rheoliad 4(1)(e) yn arbed adran 130(1) i (3) o'r Ddeddf Tai. Mae adrannau 130(4) a 143G(4) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hawl tenant i brynu. Nid yw'n glir pam nad yw adran 130(4) wedi'i harbed ond mae adran 143G(4) wedi'i harbed.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn y testun Cymraeg, yn y llythrennau italig uwchben y rhagymadrodd, mae'r flwyddyn "2022" ar goll o'r dyddiad ar ôl y geiriau "Gosodwyd gerbron Senedd Cymru".

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Nid yw rhai cyfeiriadau'n nodi lle y gellir dod o hyd i'r ddarpariaeth, sef:

- yn rheoliad 3(1)(f), mae cyfeiriad at "Sail 14A", sydd wedi'i chynnwys yn Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 (mewn cyferbyniad, mae rheoliad 2(1)(f) yn nodi'r Atodlen a'r Ddeddf lle y gellir dod o hyd i "Sail 2A");
- yn rheoliad 3(2)(b), mae cyfeiriad at "adran 8(1)(a)", sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Tai 1988 (mewn cyferbyniad, mae paragraffau eraill yn y rheoliadau wedi nodi'r Ddeddf os nad yw eisoes wedi'i datgan yn y geiriau agoriadol, er enghraifft, rheoliad 2(2)(c));
- yn rheoliad 5(1), nid yw'r adrannau y cyfeirir atynt yn ddiweddarach ym mhob un o is-baragraffau (a), (b), (c) a (d) wedi nodi'r Ddeddf lle y deuir o hyd iddynt, er enghraifft mae is-baragraff (a) yn datgan "yn unol ag adran 143E" (mewn cyferbyniad, mae rheoliadau 2(1), 3(1) a 4(1) yn cyfeirio at y Ddeddf benodol).

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 13(2), mae’r term a fewnosodir yn y copi Saesneg ar gyfer yr addasiad "contract holder" wedi ei sillafu'n anghywir. Mae'r term wedi ei ddiffinio yn y copi Saesneg o adran 7 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cynnwys cysylltnod: "contract-holder".

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 13(2) yn addasu Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Cynllun Hawl i Atgyweirio) 1985 drwy ychwanegu geiriau sydd i'w darllen fel pe baent wedi eu mewnosod ar ôl "secure tenant" ym mhob lle y mae’r term yn digwydd. Ceir cyfeiriadau at "the tenant" neu "tenant" drwy gydol y Rheoliadau hynny.

Nid yw'n glir a ddylid addasu cyfeiriadau at "the tenant" a "tenant" hefyd drwy fewnosod "or contract-holder" ar eu hôl i gyflawni effaith gyfreithiol yr addasiad.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 18(1), mae cyfeiriadau at "gategori o annedd" sydd wedi eu pennu ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Orchymyn Swyddogion Rhenti (Swyddogaethau Credyd Cynhwysol) 2013. Fodd bynnag, mae'r paragraff hwnnw'n defnyddio "categories <u>of accommodation</u>" yn hytrach nag o <u>annedd</u>.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nid yw'r termau sydd wedi eu diffinio drwy gyfeirio at Ddeddf Rhenti 1977 yn glir.  Byddai darllenydd yn debygol o elwa ar eglurder ychwanegol o'r termau hynny:

- mae’r term "tenantiaeth fyrddaliol warchodedig" wedi ei ddiffinio drwy gyfeirio at Ddeddf Rhenti 1977 – er bod y term yn cael ei ddefnyddio o fewn y Ddeddf honno, nid yw wedi ei ddiffinio o dan y Ddeddf honno, ac eithrio drwy groesgyfeiriad at y diffiniad a gynhwysir yn Neddf Tai 1980;
- mae’r term "contract cyfyngedig" wedi ei ddiffinio yn adran 19 o Ddeddf Rhenti 1977 (sydd wedi ei harbed gan Atodlen 18 i Ddeddf Tai 1988), ond nid oes cyfeiriad penodol at y lle yn y Ddeddf y gellir dod o hyd i'r diffiniad – gellai hyn fod yn ddryslyd i ddarllenydd, yn enwedig gan fod adran 19 o Ddeddf Rhenti 1977 wedi ei diddymu (yn ddarostyngedig i’r ddarpariaeth arbed).

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 12(2)(b) yn arbed adran 99B o Ddeddf Tai 1985 fel pe bai adran 99B(2)(b) i (f) wedi ei hepgor. Mae adran 99B(2)(b) i (f) yn pennu personau sy'n gymwys i gael iawndal am welliannau a wneir gan denant. Mae'r rhain yn cynnwys cyd-denant, person y breiniwyd y denantiaeth ynddo, person y neilltuwyd y denantiaeth iddo a phriod, partner sifil neu gydbreswylydd tenant sy'n gwneud y gwelliannau (ymhlith eraill). Ystyr hyn yw mai dim ond i denant sy'n gwneud gwelliannau y bydd y darpariaethau arbed yn gymwys, a bydd y rhai eraill a nodwyd yn adran 99B(2)(b) i (f) yn colli eu hawliau.

Nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn datgan y canlynol wrth nodi diben y Rheoliadau hyn:

> *"sicrhau bod hawliau penodol sy'n bodoli mewn mathau penodol o denantiaethau cyfredol (er enghraifft cais am welliant) yn cael eu cadw fel bod y partïon i'r tenantiaethau presennol hyn yn cael eu trin yn deg pan fydd eu tenantiaeth yn cael ei throsi'n gontract meddiannaeth, gan sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau a rhwymedigaethau'r ddau barti"*

Mae Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn diogelu mwynhad person o'i eiddo – mae'r llysoedd wedi cydnabod bod disgwyliad cyfreithlon mewn cysylltiad â buddiannau eiddo o fewn cwmpas yr hawl hon. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys manylion am asesiad o'r effaith ar hawliau dynol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi cynnal asesiad o'r effaith ar hawliau dynol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn a darparu rhagor o wybodaeth am ganlyniad asesiad o'r fath.

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

> *"Gan fod y Rheoliadau hyn yn dechnegol eu natur ac na fwriedir iddynt wneud newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol."*

Fodd bynnag, ar 15 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Arbed a Darpariaethau Trosiannol) 2022 yn cael ei chyhoeddi ar ffurf ddrafft. Mewn datganiad ysgrifenedig, esboniodd y Gweinidog y canlynol:

*"Er nad oes angen i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn, maent yn cael eu cyhoeddi ar ffurf ddrafft heddiw fel eu bod ar gael i randdeiliaid mewn da bryd cyn y dyddiad dod i rym ar 1 Rhagfyr."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1 i 8 yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Tachwedd 2022**

Eitem 3.3

# SL(6)282 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ("y Ddogfen"). Mae'r Ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru.

Mae'r Ddogfen yn darparu ar gyfer codiad o 5 y cant o 1 Medi 2022 i'w gymhwyso i'r holl bwyntiau graddfa a lwfansau. Mae hefyd yn gwneud newidiadau amrywiol megis newid yn nifer y dyddiau a'r oriau y mae'n rhaid i athrawon fod ar gael i weithio yn sgil Gŵyl Banc ychwanegol i nodi angladd Ei Mawrhydi y Frenhines a Gŵyl Banc ychwanegol i nodi coroni Ei Fawrhydi y Brenin Charles III.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2022 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021, a gyfeiriodd at "Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol".

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn hwn yn cynnwys gwallau niferus sy'n debygol o arwain at ddryswch o ran effaith y Gorchymyn hwn ac adran 2 o'r Ddogfen. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. Mewn un achos, mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ôl-weithredol o 1 Medi. **<u>2021</u>** (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mewn gwirionedd, mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ôl-weithredol o 1 Medi **<u>2022</u>** (pwyslais wedi'i ychwanegu). Cyfeirir at y dyddiad cywir mewn rhannau eraill o'r Memorandwm Esboniadol;

b. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys crynodeb byr o'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Ddogfen ers ei rhagflaenydd yn 2021. Fodd bynnag, mae'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yn rhaid i athrawon fod ar gael i weithio am **<u>194</u>** diwrnod (**<u>1258.5</u>** awr o amser dan gyfarwyddyd) (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mewn gwirionedd, mae'r Ddogfen yn darparu bod yn rhaid i athrawon fod ar gael i weithio am **<u>193</u>** diwrnod (gweler paragraff 50.2 o'r Ddogfen) (**<u>1252</u>** awr o amser dan gyfarwyddyd – gweler paragraff 50.5, neu baragraff 50.6 mewn perthynas ag addasu ar gyfer athro a gyflogir yn rhan-amser) (pwyslais wedi'i ychwanegu);

c. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pryd y daw'r Gorchymyn i rym, gan nodi yn lle hynny *"Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar **<u>xxxx</u>**"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae'r gwall hwn hefyd yn digwydd yn y fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol;

d. Yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol, nodir bod y Ddogfen yn disodli "Dogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (Cymru). **<u>2020</u>** a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mewn gwirionedd, mae'r Ddogfen yn disodli "Dogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (Cymru). **<u>2021</u>** a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir na osodwyd y Gorchymyn hwn gerbron y Senedd tan 15 Tachwedd 2022 ac nad yw'n dod i rym tan 7 Rhagfyr 2022, dros dri mis ar ôl y dyddiad pryd mae adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ôl-weithredol (fel y darperir ar ei gyfer gan erthygl 2 o'r Gorchymyn).

Yn Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn egluro:

*"…o ganlyniad i'r amser cyfyng rhwng pob cam yn y broses gyflog eleni, a'r angen am drafodaeth bellach ynghylch cyllido'r dyfarniad cyllid, nid oedd yn bosibl gosod y Gorchymyn yn gynt."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir bod anghydfod rhwng undebau a Llywodraeth Cymru ynghylch lefel y dyfarniad cyflog a bod rhai undebau yn y broses o gynnal pleidlais ymysg eu haelodau mewn perthynas â gweithredu diwydiannol cysylltiedig.

Er enghraifft, mae NASUWT, Undeb yr Athrawon, yn datgan ar ei wefan:

> *"The NASUWT has confirmed to governments and employers in England, Scotland and Wales that we are in dispute over their failure to pay all teachers a minimum 12% pay award this year.*
>
> *Whilst decisions may be taken by government and employers to implement below-inflation pay awards this year, we will remain in dispute on the basis of the failure to pay a 12% award.*
>
> […] *For the avoidance of doubt, pay awards of less than 12% are not acceptable and our negotiators are not authorised to agree pay awards that do not meet the 12% demand."*

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 14 Tachwedd 2022, dywedodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg a Addysg:

> *"Ar 21 Gorffennaf cytunais mewn egwyddor, yn ddibynnol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, i dderbyn holl argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer 2022/23 yn cynnwys codiad cyflog o 5% i bob pwynt cyflog statudol ar bob graddfa gyflog ac ar gyfer pob lwfans o fis Medi 2022 ymlaen. Heddiw gallaf gadarnhau y byddwn yn derbyn argymhellion y Corff Adolygu..*
>
> […] *Rwy'n derbyn y gallai rhai pobl fod yn siomedig na ellir darparu cynnydd uwch ac yn cydnabod hawl gyfreithiol pob gweithiwr i geisio codiad cyflog teg a gweddus yn ystod y cyfnod heriol hwn o chwyddiant a chynnydd mewn costau byw.*
>
> *Fodd bynnag, gan na chafwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU, nid ydym mewn sefyllfa i fynd i'r afael ymhellach â'r materion hyn y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi ei ystyried."*

At hynny, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn yn nodi:

> *"Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y cyfan yn negyddol gan nodi siom a phryderon na fyddai'r cynnydd o 5% ar gyfer 2022/23 (a 3.5% posibl ar gyfer 2023/24) yn ddigonol.*

*Roedd nifer o ymgynghorwyr hefyd yn galw am ailystyried y dyfarniad cyflog yn dilyn newidiadau sylweddol i chwyddiant ers cwblhau'r adroddiad gan yr IWPRB ym mis Mai 2022 (cyfradd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), sef prif fesur chwyddiant, wedi codi i 9.9% ym mis Awst, o'i gymharu â 9.1% ym mis Mai).*

*Roedd y mwyafrif yn croesawu'r argymhellion eraill, fel: cynnydd diymhongar ar gyfer yr holl raddfeydd a lwfansau cyflog; a diwygiadau arfaethedig i delerau ac amodau.*

*Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth newydd a oedd wedi ei gwneud yn ofynnol i ailystyried cynigion y Gweinidog. Yn benodol, nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi digon o dystiolaeth ychwanegol angenrheidiol i gefnogi dyfarniad cyflog uwch ar draws yr holl ystodau cyflog nag oedd eisoes wedi'u hystyried a'u gwrthod ar sail fforddiadwyedd ac effaith bosibl ar gyllidebau."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt 1 yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**22 Tachwedd 2022**

Eitem 3.4

# SL(6)278 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("y Prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr sy'n amodol ar incwm yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rheoliad 3(8) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostyngiad dros dro yn y gyfradd llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr israddedig a bennir yn rheoliad 21A o'r Prif Reoliadau; mae Rheoliad 3(11) yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â benthyciadau gradd ôl-raddedig a bennir yn Rheoliad 21B o'r Prif Reoliadau.

Pennir y gyfradd llog ar 6.5% ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr 2022 ac sy'n gorffen ar 28 Chwefror 2023. Ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y gyfradd llog yn dychwelyd i'r gyfradd wreiddiol a bennir yn y Prif Reoliadau.

## Y weithdrefn

Negyddol Cyfansawdd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae'r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

*"The 2022 Regulations are composite regulations. As this instrument will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for it to be made or laid bilingually. Therefore, the 2022 Regulations are made in English only."*

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Tachwedd 2022**

# SL(6)272 – Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022

## Cefndir a diben

Diben Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022 (y "Rheoliadau") yw nodi'r categorïau o bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cofrestru yng Nghymru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Ni chaiff pobl sydd wedi'u hanghymhwyso o dan y Rheoliadau hyn weithredu fel gwarchodwyr plant yng Nghymru, darparu gofal dydd na bod ynghlwm wrth reoli unrhyw ddarpariaeth gofal dydd.

Mae'r Rheoliadau'n dirymu rheoliadau tebyg o 2010 ac yn diweddaru'r rhestr o droseddau, gorchmynion a phenderfyniadau sy'n anghymhwyso rhywun rhag gweithio mewn gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn cynnwys rhagor o droseddau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sy'n ymddangos ar hyn o bryd yn y rheoliadau cyfatebol sy'n gymwys yn Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau sy'n gysylltiedig â voyeuriaeth a'r defnydd o drais, bygythiadau neu unrhyw fath o orfodaeth i orfodi person arall i briodi.

Mae'r Rheoliadau'n dileu darpariaethau sy'n anghymhwyso pobl rhag cael eu cofrestru i ddarparu gofal plant rheoleiddiedig ar sail y ffaith eu bod yn byw gyda rhywun sydd wedi'i anghymhwyso neu fod rhywun sy'n gweithio yn eu haelwyd wedi'i anghymhwyso. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dileu rhai anghysondebau yn y rheoliadau presennol i sicrhau nad yw pobl sydd wedi bod yn destun Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwylio eu hunain yn y gorffennol yn cael eu hanghymhwyso'n awtomatig rhag cofrestru.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae "gorchymyn gwarcheidiaeth" yn golygu "gorchymyn perthnasol" at ddibenion y Rheoliadau.

Diffinnir gorchymyn gwarcheidiaeth yn nhroednodyn 1 ar dudalen 5 drwy gyfeirio at adran 30(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 ("Deddf 2000").

Fel yr eglurwyd yn y troednodyn, mae adran 30 o Ddeddf 2000 wedi'i diddymu. Mae'n ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed penodol yn OS. 2012/2231, ond nid yw'r rhain yn ymestyn i adran 30.

Mae'n aneglur felly a yw'r term 'gorchymyn gwarcheidiaeth' wedi'i ddiffinio'n fwriadol drwy gyfeirio at ddarpariaeth a ddiddymwyd, neu a yw'n gamgymeriad.

Gofynnir am ymateb gan Lywodraeth Cymru i egluro.

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 12(3) yn nodi ei fod yn diwygio ac yn amnewid dyddiad yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Mae'n nodi'r canlynol:

> *[…] yn rheoliad 2(1),* ***ym mharagraff (a)*** *yn lle "2010" rhodder "2022". [ychwanegwyd pwyslais]*

Mae pedwar gwahanol baragraff (a) yn rheoliad 2, felly, nid ydym yn ystyried bod y drafftio ar gyfer yr amnewidiad hwn yn ddigon manwl.

Mae rheoliad 2 yn ddarpariaeth ddehongli ac mae ar ffurf rhestr heb ei rhifo. Mae paragraff 7.17(1) o ganllawiau Drafftio Deddfau i Gymru yn nodi mai'r ffordd fwyaf manwl gywir o nodi lleoliad diwygiad, wrth fewnosod eitem ar restr heb ei rhifo, yw nodi'r cofnod presennol y mae'r mewnosodiad yn cael ei wneud ar ei ôl.

Yn hyn o beth, rydym o'r farn y byddai'r drafftio a ganlyn yn nodi'n gliriach y lleoliad a fwriedir ar gyfer yr amnewidiad:

> *[…] yn rheoliad 2(1),* **yn y diffiniad o "anghymhwyso"**, *ym mharagraff (a) […]*

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn rhestru nifer o orchmynion a phenderfyniadau sy'n anghymhwyso person rhag cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru.

Yn benodol, mae paragraffau 21(b) ac (c) o Atodlen 1 (y "Paragraffau Perthnasol") yn ymwneud ag amgylchiadau sy'n anghymhwyso person o ganlyniad i ddyfarniadau penodol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("DSG 2000").

At y dibenion hyn, mae'r Paragraffau Perthnasol ill dau yn cyfeirio at adran 20(1) o DSG 2000. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn frys ar gyfer canslo yn Lloegr. Gwneir darpariaeth debyg ar gyfer Cymru yn adran 20A o DSG 2000, ond nid yw'r adran hon wedi'i chynnwys yn y Paragraffau Perthnasol.

Gofynnir am ymateb gan Lywodraeth Cymru i egluro a yw adran 20A o DSG 2000 wedi'i hepgor yn fwriadol o'r Paragraffau Perthnasol.

**4. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Ym mharagraff 2(e) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau, mae "gross indecency" wedi ei gyfieithu fel "anwedduster garw".

Er y nodwn fod "anwedduster garw" wedi'i ddefnyddio'n flaenorol mewn offerynnau statudol Cymru; Nid yw "garw" yn gyfieithiad amlwg o "gross" yn y cyd-destun hwn.

Nodwn fod "gross indecency" yn cael ei gyfieithu'n amlach fel "anwedduster difrifol" neu "anwedduster dybryd", ac rydym yn ystyried y cyfieithiadau hyn yn fwy priodol.

Yn hyn o beth, byddai'n ddefnyddiol safoni'r cyfieithiad i sicrhau cywirdeb a chysondeb deddfwriaeth Cymru.

**5. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Ym mharagraff 2(j) o Atodlen 2, mae anghysondeb o ran y rhifau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at adran 30 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1965. Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at adran 29 o'r Ddeddf.

Yn seiliedig ar y geiriau mewn cromfachau ym mharagraff 2(j), mae'n ymddangos bod y testun Saesneg yn gywir.

**6. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Ym mharagraff 1(4)(i) o Atodlen 2, mae anghysondeb o ran y rhifau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at adran 63 o Ddeddf Terfysgaeth 2000. Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at adran 64 o'r Ddeddf.

Yn seiliedig ar y geiriau mewn cromfachau ym mharagraff 1(4)(i), mae'n ymddangos bod y testun Saesneg yn gywir.

**7. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Dylai'r cyfeiriad at adran 23 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 ("Deddf 2003") ym mharagraff 1(16)(c) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau fod yn gyfeiriad at adran 3 o Ddeddf 2003.

Mae adran 3 o Ddeddf 2003 yn ymwneud â'r drosedd o gynorthwyo person nad yw o'r DU i anffurfio organau rhywiol merch dramor, fel y cyfeirir ato yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Nid yw Deddf 2003 yn cynnwys adran 23.

Mae'r gwall hwn hefyd yn y testun Cymraeg.

**8. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r cyfeiriad at adran 4 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 ("Deddf 2003") ym mharagraff 1(16)(d) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn anghywir.

Mae adran 4 o Ddeddf 2003 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â natur alldiriogaethol troseddau a gyflawnir o dan Ddeddf 2003.

Fodd bynnag, mae paragraff 1(16)(d) o Atodlen 3 yn cyfeirio at y drosedd o "methu ag amddiffyn merch rhag risg o anffurfio organau cenhedlu", sef adran 3A o Ddeddf 2003.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 2(6)(c) i Atodlen 3 yn cyfeirio at "troseddau sy'n ymwneud â maethu preifat" o fewn adran 15 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 ("Deddf 1984").

Teitl adran 15 o Ddeddf 1984 yw 'Troseddau sy'n ymwneud â phlant maeth' ('*Offences related to foster children*').

Ein dealltwriaeth ni yw bod gan 'maethu preifat' ystyr gwahanol, gan gyfeirio'n gyffredinol at drefniadau maethu a wneir heb gyfraniad awdurdodau lleol.

Nid yw'n ymddangos bod adran 15 o'r Ddeddf yn cwmpasu trefniadau o'r fath, a gallai cynnwys y gair 'preifat' ym mharagraff 2(6)(c) i'r Rheoliadau achosi dryswch.

Gofynnir am ymateb gan Lywodraeth Cymru i egluro.

**10. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r cyfeiriad statudol ym mharagraff 3(9) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn anghywir.

Mae'r ddarpariaeth yn dyfynnu Gorchymyn Troseddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2009. Hyd y gellir gweld, nid oes gorchymyn o'r fath o 2009.

Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at Orchymyn Troseddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008 (O.S. 2008/1769), sef y cyfeiriad cywir yn ôl pob golwg.

**11. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r cyfeiriad at "Cyfraith Jersey 1969" ym mharagraff 4(a) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn anghywir ac yn anghyflawn. Dylai nodi "Cyfraith Plant (Jersey) 1969".

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pum pwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**12. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau yn dirymu, yn disodli ac yn diweddaru "Rheoliadau 2010"[1]. Mae un newid polisi allweddol o Reoliadau 2010 yn ymwneud ag anghymhwyso rhag gofal plant rheoleiddiedig drwy gysylltiad.

O dan Reoliadau 2010, gall person gael ei anghymhwyso rhag gweithio ym maes gofal plant yng Nghymru ar sail ei gysylltiad â rhywun sy'n byw neu'n gweithio yn ei gartref sydd wedi'i anghymhwyso (h.y. sydd wedi cyflawni trosedd neu wedi'i wneud yn destun gorchmynion neu benderfyniadau sy'n dod o fewn cwmpas Rheoliadau 2010).

Mae Rheoliadau 2022 wedi'u drafftio i ddiddymu'r ddarpariaeth ynghylch anghymhwyso drwy gysylltiad mewn perthynas â phersonau cofrestredig sy'n darparu gofal plant mewn mangre annomestig (fel arfer person sy'n darparu gofal i ffwrdd o'i gartref, megis mewn lleoliad gofal dydd).

Effaith hyn yw nad yw person yn cael ei anghymhwyso rhag darparu gofal plant rheoleiddiedig mewn mangre annomestig, er ei fod yn byw gyda rhywun sydd wedi'i anghymhwyso. Fodd bynnag, mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

> "*bydd y ddarpariaeth yn dal i fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf o warchodwyr plant sy'n gweithio o'u cartref*".

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r newid polisi hwn (ac eraill) wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol.

Mae'n nodi bod lefel y risg i ddiogelwch plant sy'n deillio o gysylltiad person cofrestredig mewn lleoliadau annomestig "yn sylweddol is" na'r risg mewn lleoliadau domestig. Mae hefyd yn nodi y bydd newid o'r fath yn alinio polisïau ar draws Cymru a Lloegr

**13. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

[1] Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddrafft o'r Rheoliadau rhwng 31 Mawrth a 23 Mehefin 2022. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r paragraffau a ganlyn o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Cafodd yr ymgynghoriad ei ddwyn i sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys yr holl ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli'r sefydliadau gofal plant a gwaith chwarae. [...]*
>
> *Cafwyd cytundeb cyffredinol ynghylch yr holl gynigion yn yr ymgynghoriad. Penderfynwyd nad oedd angen gwneud unrhyw welliannau i'r Rheoliadau. [...]*

**14. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi rhai pryderon ynghylch hygyrchedd y Rheoliadau

Rhaid i ddefnyddwyr y Rheoliadau wirio'r Atodlenni i ganfod pa orchmynion, dyfarniadau neu droseddau sy'n eu hanghymhwyso rhag ymwneud â gofal plant rheoleiddiedig yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae'r cofnod a restrir yn yr Atodlenni yn nodi'n glir y ddarpariaeth anghymhwyso. Er enghraifft:

> "*gwrthod cais P i gofrestru **o dan adran 13** o Ddeddf Safonau Gofal 2000*" [ychwanegwyd pwyslais]

Fodd bynnag, nid yw cyfeiriad at adrannau perthnasol pob offeryn cyfreithiol wedi'i gynnwys ar gyfer pob cofnod. Un enghraifft yw paragraff 15 o Atodlen 1 i'r Rheoliad. Mae hyn yn darparu bod person yn cael ei anghymhwyso os yw wedi bod yn destun:

> "*Gorchymyn person addas, gorchymyn hawliau rhiant neu orchymyn ysgol hyfforddi o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 1968*".

Roedd y Ddeddf hon yn cynnwys 182 o adrannau. Drwy beidio â mewnosod yn benodol rif yr adran berthnasol y gwnaed gorchmynion o'r fath oddi tano, mae'n anodd i'r darllenydd nodi darpariaethau perthnasol y Ddeddf a ddyfynnir. Yn yr enghraifft benodol hon, mae'r anawsterau'n cael eu dwysáu gan fod y darpariaethau perthnasol wedi'u diddymu ers hynny ac efallai na fyddant ar gael heb feddalwedd ddeddfwriaethol arbenigol.

Rydym hefyd yn nodi pryderon hygyrchedd mewn perthynas â dyfynnu offerynnau cyfreithiol o Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Mae un enghraifft benodol yn ymwneud â pharagraff 23(f) o Atodlen 1 sy'n cyfeirio at Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001. Mae'r Rheoliadau'n nodi mai "Deddf Tynwald" yw hon. Y tro cyntaf i'r ymadrodd hwn gael ei ddefnyddio, rydym yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol cynorthwyo'r darllenydd drwy ychwanegu troednodyn yn egluro mai ystyr hyn yw Deddf a basiwyd gan senedd Ynys Manaw. At hynny, gan fod darpariaethau perthnasol y Ddeddf hon wedi'u diddymu, nid yw'n hawdd cael mynediad atynt.

**15. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er bod y Pwyllgor yn nodi nad ydynt yn rhan o'r Rheoliadau hyn eu hunain, canfuwyd dros 40 o wallau yn y troednodiadau i'r Rheoliadau hyn a hysbyswyd swyddogion Llywodraeth Cymru am bob un ohonynt ar wahân. Mae troednodiadau ond yn ddefnyddiol i ddarllenwyr deddfwriaeth i'r graddau y maent yn gywir ac felly mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gywir felly.

**16. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er bod y Pwyllgor yn nodi nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau hyn eu hunain, nid yw'n glir a yw paragraff sy'n amlinellu rheoliad 9 yn gywir.

O dan reoliad 9, nid yw person wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu rhag darparu gofal dydd os yw'n cael hepgoriad drwy gydsyniad ysgrifenedig, ac nad yw cydsyniad ysgrifenedig o'r fath wedi'i dynnu'n ôl.

Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *Nid yw rheoliad 9 yn gymwys pan fo'r anghymhwyso yn codi yn sgil cynnwys person ar Restr 99 neu'r rhestr a gedwir o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, yn sgil gwahardd person rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o dan Ddeddf Amddiffyn Grwpiau Hyglwyf 2006 neu pan fo llys wedi gorchymyn na chaiff person weithio mewn cyswllt â phlant yn dilyn euogfarn am droseddau penodol yn erbyn plant.*

Rydym yn dehongli '*Nid yw rheoliad 9 yn gymwys*' yn y cyd-destun hwn i olygu na chaniateir hepgoriadau pan fo person wedi bod yn destun un o'r canlyniadau hyn.

Fodd bynnag, ein dealltwriaeth o reoliad 9 yw y caniateir hepgoriadau mewn perthynas â'r holl ganlyniadau hyn, ac eithrio mewn perthynas â throseddau penodol yn erbyn plant o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 (fel y nodir yn rheoliad 9(2)).

Gofynnir am ymateb gan Lywodraeth Cymru i egluro.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r holl bwyntiau adrodd, ac eithrio pwyntiau 12 a 13.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022**

## Pwyntiau Craffu Technegol

Mae'r Pwyllgor wedi codi un ar ddeg o bwyntiau o dan Reol Sefydlog 21.1 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Darperir ymatebion ar wahân isod i bob un o'r pwyntiau a godwyd. Mae Llywodraeth Cymru, o ystyried nifer a natur y materion hyn, wedi penderfynu ail-wneud y Rheoliadau er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd. Bydd set bellach o Reoliadau yn cael ei gosod, a daw i rym yn union ar ôl y set hon, gan ddirymu a disodli'r Rheoliadau hynny.

### Pwynt Craffu Technegol 1

### Ymateb

Eglurwyd hyd a lled ystyr "gwarcheidiaeth" yn Rheoliadau 2010 drwy gyfeirio at adran 30(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000, er ei bod eisoes wedi ei diddymu ar y pryd hwnnw.

Mae'r diffiniad o "gorchymyn gwarcheidiaeth" yn adran 30(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 yn ddefnyddiol i gyfeirio ato er gwaethaf y ffaith bod y ddarpariaeth wedi'i diddymu. Mae hyn oherwydd ei fod yn cynnwys cyfeiriad at y ffurf ar orchymyn gwarcheidiaeth a ddeellir yn fwyaf cyffredin o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac at hynny mae hefyd yn cyfeirio at y ffurfiau llawer prinnach ar warcheidiaeth o dan Ddeddf y Fyddin 1955, Deddf yr Awyrlu 1955 a Deddf Disgyblaeth y Llynges 1957. Er bod pob un o'r tair Deddf hyn wedi ei diddymu yn ei chyfanrwydd gan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006, mae'r darpariaethau arbed yn dangos ei bod yn dal yn bosibl i orchmynion a wnaed odanynt fod mewn grym. Adran ddehongli yw adran 30, felly ni chafodd hon ei hun ei chynnwys yn y darpariaethau arbed.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod yn fwy hygyrch pe cyfeirid yn uniongyrchol at ddarpariaethau deddfwriaethol eraill a gynhwysir o fewn cwmpas ystyr term, hyd yn oed os ydynt wedi eu diddymu, yn hytrach na drwy gyfeiriad eilaidd sydd ei hun wedi ei ddiddymu.

### Pwynt Craffu Technegol 2

### Ymateb

Rydym yn cydnabod bod pedwar gwahanol baragraff (a) yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Fodd bynnag, gan mai un paragraff (a) yn unig sy'n cynnwys y flwyddyn "2010" (neu, yn wir, unrhyw ddyddiad), ystyrir bod y cyfeiriad a amnewidiwyd gan baragraff 12(2) yn ddiamwys a'i fod yn darparu sicrwydd cyfreithiol. Â pharch, gofynna Llywodraeth Cymru a yw'n gywir codi'r pwynt hwn o dan Reol Sefydlog 21.2 (vi), sy'n cyfeirio at ddrafftio diffygiol neu ddrafftio sy'n methu â bodloni gofynion statudol.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod o well cymorth i'r darllenydd pe byddid yn nodi'r diffiniad penodol o fewn rhestr nad yw wedi ei rhifo er mwyn dangos ymhle mae'r diwygiad i gael ei wneud.

**Pwynt Craffu Technegol 3**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai yn anfwriadol yr hepgorwyd cyfeiriad at orchymyn o dan adran 20A o DSG 2000 fel gorchymyn anghymhwyso, a bydd yn mynd ati i gywiro hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 4**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr argymhelliad o blaid safoni'r cyfieithiad o "*gross indecency*".

Defnyddiwyd "*anwedduster garw*" fel ffordd o gyfieithu "*gross indecency*" yn Rheoliadau 2010, a dyma'r cyfieithiad a awgrymir mewn sawl ffynhonnell wahanol, sy'n awgrymu bod y cyfieithiad hwn yn gywir ac yn dderbyniol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, fodd bynnag, fod "*anwedduster difrifol*" wedi ei ddefnyddio mewn Rheoliadau mwy diweddar yn 2019.

Rydym wedi codi'r mater hwn â chydweithwyr proffesiynol ym maes cyfieithu deddfwriaethol, ond yn y byr amser rhwng cael adroddiad y cynghorwr cyfreithiol a drafftio ymateb, nid yw'n cydweithwyr wedi gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r mater. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon rhoi adborth i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd y mater wedi'i ystyried a barn wedi'i llunio.

**Pwynt Craffu Technegol 5**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am dynnu sylw at y pwynt adrodd hwn. Mae'n cytuno â'r pwynt a bydd yn mynd ati i gywiro'r testun Cymraeg.

**Pwynt Craffu Technegol 6**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am dynnu sylw at y pwynt adrodd hwn. Mae'n cytuno â'r pwynt a bydd yn mynd ati i gywiro'r testun Cymraeg.

**Pwynt Craffu Technegol 7**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am dynnu sylw at y pwynt adrodd hwn. Mae'n cytuno â'r pwynt a bydd yn mynd ati i gywiro'r testun.

**Pwynt Craffu Technegol 8**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt a bydd yn mynd ati i gywiro'r cyfeiriad er mwyn iddo gyfeirio at adran 3A o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (trosedd o fethu ag amddiffyn merch rhag risg o anffurfio organau cenhedlu).

**Pwynt Craffu Technegol 9**

**Ymateb**

Mae sylw'r cynghorwr cyfreithiol, sef y sylw bod "maethu preifat" yn cyfeirio'n gyffredinol at drefniadau maethu a wneir heb gyfraniad awdurdodau lleol, yn gywir. Mae hefyd yn gywir wrth nodi mai teitl yr adran ar gyfer adran 15 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 ("Deddf 1984") yw "Troseddau sy'n ymwneud â phlant maeth" ("*Offences related to foster children*") ac nad yw'n awgrymu bod cwmpas yr adran wedi'i gyfyngu i drefniadau maethu preifat yn unig.

Fodd bynnag, mae Deddf 1984 wedi ei drafftio yn y fath fodd fel bod pob plentyn sydd o fewn oedran ysgol, ac y gofelir amdano gan rywun ac eithrio rhiant neu warcheidwad, yn cael ei alw'n "blentyn maeth" ("*foster child*") (gweler adran 1). Mae adran 2 wedyn yn eithrio bron pob math o blant maeth heblaw'r rhai y byddid, yng Nghymru a Lloegr, yn cyfeirio atynt fel plant sydd wedi eu "maethu'n breifat". Credwn y bydd cynnwys y gair "preifat" yn cynorthwyo darllenydd sy'n gyfarwydd â'r derminoleg a ddefnyddir yng nghyfraith Cymru a Lloegr i ddeall bod y troseddau dan sylw yn rhai sy'n gysylltiedig â "maethu preifat" fel y'i deellir yn yr awdurdodaeth hon.

**Pwynt Craffu Technegol 10**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am dynnu sylw at y pwynt hwn, a bydd yn mynd ati i gywiro'r testun Saesneg er mwyn cyfeirio at Orchymyn Troseddau Rhywiol (Gogledd Iwerddon) 2008.

**Pwynt Craffu Technegol 11**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am godi'r pwynt hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddiwygio'r cyfeiriad at Gyfraith Plant (Jersey) 1969.

**<u>Pwyntiau Craffu ar Rinweddau</u>**

Mae'r Pwyllgor wedi codi pum pwynt o dan Reol Sefydlog 21.13 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn; mae'n ofynnol ymateb i dri ohonynt.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 14**

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai nodi rhifau'r adrannau penodol y gwneir y gorchmynion dan sylw odanynt yn darparu gwell cymorth i'r sawl sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth. Bydd cyfeiriadau at y rhifau adran priodol yn cael eu gwneud ar yr un pryd ag yr eir i'r afael â materion eraill y mae rhaid eu cywiro.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai mewnosod troednodyn i egluro mai ystyr "Deddf Tynwald" yw Deddf a basiwyd gan Senedd Ynys Manaw yn gymorth i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 15**

**Ymateb**

Er nad oes effaith gyfreithiol i droednodiadau, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod troednodiadau yn fanwl gywir, er mwyn sicrhau eu bod o gymorth i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 16**

**Ymateb**

Mae'r eithriad o'r weithdrefn hepgoriadau o dan reoliad 9(2) yn gymwys mewn perthynas â phersonau sydd wedi eu heuogfarnu o droseddau yn erbyn plant fel y'u diffinnir yn adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 pan fo'r drosedd ei hun wedi ei diddymu ers hynny. Byddai rhai o'r personau hynny wedi bod yn destun gorchymyn anghymhwyso wedi'i osod gan y llys, yn ogystal ag unrhyw ddedfryd arall.

Derbynnir nad yw'r nodyn esboniadol yn fanwl gywir, gan na fyddai personau a oedd yn ddarostyngedig i orchmynion anghymhwyso o dan adrannau 28(4), 29(4) neu 29A(2) o reidrwydd wedi bod ar un neu'r llall o'r rhestrau a gedwid gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac na fyddai eraill a oedd ar y rhestrau hynny o reidrwydd wedi bod yn destun gorchmynion anghymhwyso a wnaed gan y llys.

**ADENDWM I YMATEB Y LLYWODRAETH: Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022**

Ar 7 Tachwedd 2022, cyflwynodd y Llywodraeth ymateb i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dyddiedig 31 Hydref 2022, mewn cysylltiad â'r Rheoliadau uchod.

Nododd yr ymateb a roddwyd mewn perthynas â phwynt Craffu Technegol 4 y byddai adborth pellach yn cael ei roi i'r pwyllgor ar ôl rhoi ystyriaeth bellach i'r mater a godwyd. Mae'r ymateb llawn a roddwyd mewn perthynas â phwynt Craffu Technegol 4 wedi ei atgynhyrchu isod er hwylustod:

***Pwynt Craffu Technegol 4***

***Ymateb***

*Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr argymhelliad o blaid safoni'r cyfieithiad o "gross indecency".*

*Defnyddiwyd "anwedduster garw" fel ffordd o gyfieithu "gross indecency" yn Rheoliadau 2010, a dyma'r cyfieithiad a awgrymir mewn sawl ffynhonnell wahanol, sy'n awgrymu bod y cyfieithiad hwn yn gywir ac yn dderbyniol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, fodd bynnag, fod "anwedduster difrifol" wedi ei ddefnyddio mewn Rheoliadau mwy diweddar yn 2019.*

*Rydym wedi codi'r mater hwn â chydweithwyr proffesiynol ym maes cyfieithu deddfwriaethol, ond yn y byr amser rhwng cael adroddiad y cynghorwr cyfreithiol a drafftio ymateb, nid yw'n cydweithwyr wedi gallu rhoi ystyriaeth lawn i'r mater. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon rhoi adborth i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd y mater wedi'i ystyried a barn wedi'i llunio.*

Bellach, mae cydweithwyr perthnasol ym maes cyfieithu deddfwriaethol wedi cael cyfle i roi ystyriaeth lawn i'r mater hwn ac wedi penderfynu o blaid defnyddio '*anwedduster difrifol*' fel y cyfieithiad safonol o '*gross indecency*'. Bydd y term yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata terminoleg ar-lein y Gwasanaeth Cyfieithu – TermCymru - fel y cyfieithiad safonol o '*gross indecency*' er mwyn sicrhau defnydd cyson o'r term yn y dyfodol.

Eitem 5.1

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022** |
| **DYDDIAD** | **21 Tachwedd 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau o'r Senedd am wybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig hwn, felly, wedi'i osod heddiw gerbron y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 30C.

Bydd Aelodau o'r Senedd hefyd am wybod bod y Datganiad Ysgrifenedig hwn yn disodli'r un a osodwyd drwy gamgymeriad ar 21 Hydref o dan yr un teitl.

Gofynnodd y cyn-Weinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, Victoria Prentis AS am gydsyniad i wneud Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022.

Bydd yr offeryn statudol (OS) a enwir uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r Rheoliadau yn cynnig diwygio cyfraith uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir mewn perthynas â rheolaethau swyddogol ar fewnforion i Brydain Fawr o anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid, a chynnyrch planhigion (gan gynnwys bwyd) yn ogystal â rheolau am iechyd a lles anifeiliaid, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae angen diwygiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n effeithiol yn y cyd-destun domestig ac i ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae Rhan 5 o'r OS dan y teitl uchod hefyd yn gwneud newidiadau i Ddeddf

Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol yn unol â Rheol Sefydlog 30A.

Mae'r OS hefyd yn gwneud y diwygiadau canlynol:

- Mae Rhan 2 o'r offeryn hwn yn ymdrin â diwygiadau sy'n cywiro Rheoliad (EU) Rhif 2016/2031.
- Mae Rhan 3 yn cynnwys nifer o ddiwygiadau i'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (EU) Rhif 2017/625).
- Mae Rhan 4 yn ymdrin â mân ddiwygiadau gweithredol i gyfreithiau eraill yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir:
    - Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001.
    - Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005.
    - Diwygio Atodiad 2 i Benderfyniad y Comisiwn  2007/777/EC.
    - Diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 798/2008.
    - Diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 119/2009.
    - Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/625.

Mae hefyd yn gwneud newidiadau i'r rheoliadau deddfwriaethol canlynol:

- Mae Rhan 6 yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Lloegr) 2011 a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Lloegr) 2018.

Gosodwyd y Rheoliadau ar ffurf drafft gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref 2022 a disgwylir iddynt ddod i rym ar 13 Rhagfyr 2022:
http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2022/9780348239911.

**Yr effaith ar gymhwysedd**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Pam mae cydsyniad wedi cael ei roi**

Mae'r OS hwn  yn ymdrin â mân ddiffygion sy'n codi oherwydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a diffygion eraill nas rhagwelwyd ar adeg ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n sicrhau gweithrediad trefn fewnforio ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Oherwydd hynny, er mwyn effeithlonrwydd a hwylustod ac er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad o ran y llyfr statud, rwy'n credu ei bod yn briodol rhoi cydsyniad i'r OS a enwir uchod.  Rwy'n gwneud hynny gan gadw'r gallu i fynd ar lwybr gwahanol yn y dyfodol, yn unol â'n cymhwysedd datganoledig.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/3455/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddEconomi@senedd.cymru

21 Tachwedd 2022

Annwyl Huw a Paul,

Huw, diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Tachwedd. Fel y gwyddoch ar 18 Hydref, ysgrifennais i'ch hysbysu fy mod wedi rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022, (y Rheoliadau), a osodwyd ar ffurf drafft gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref a gosodais Ddatganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r Rheoliadau o dan Reol Sefydlog (RhS) 30C ar 21 Hydref.

Ar ôl adolygiad dilynol o'r Rheoliadau, rwy'n cadarnhau yr ystyrir bod y Rheoliadau yn "Offeryn Statudol perthnasol" at ddibenion RhS 30A, am fod y diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 yn cynnwys un ddarpariaeth yn rhan 5, paragraff 20, o'r Rheoliadau, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn unol â hynny, rwyf hefyd yn cadarnhau y dylai Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) fod wedi'i osod yn hytrach na'r Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon. Rwy'n ymddiheuro'n ddiffuant iawn am y gwall hwn.

Felly, ceisiaf gywiro'r cofnod a'ch hysbysu fy mod wedi tynnu'r Datganiad Ysgrifenedig RhS 30C gwreiddiol yn ôl, ac rwyf heddiw wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig diwygiedig o dan RhS 30C, a Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan RhS 30A gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ddolen i'r Datganiad Ysgrifenedig diwygiedig ar gael yma: https://senedd.cymru/media/aqjnth52/ws-ld15411-r-w.pdf

Mae'r ddolen i'r Memorandwm ar gael yma: https://senedd.cymru/media/bftc2b2v/sicm-ld15473-reg-w.pdf
Mewn perthynas â darpariaethau OS y DU y byddwch yn eu hystyried o dan RhS 30C, fel yr amlinellwyd yn wreiddiol yn fy llythyr ar 18 Hydref, mae'r Rheoliadau yn cynnig diwygiadau i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, er mwyn sicrhau bod y cyfreithiau'n gweithredu'n effeithiol yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill pan fo rhesymeg glir dros wneud hynny.

Ar yr achlysur hwn, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud cywiriadau ac yn mynd i'r afael â materion o ran gweithredu mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad y llyfr statud. Rwy'n gwneud hynny gan gadw'r gallu i fynd ar lwybr gwahanol yn y dyfodol, yn unol â'n cymhwysedd datganoledig.

Mae'r offeryn hwn yn mynd i'r afael â mân ddiffygion sy'n gysylltiedig ag Ymadael â'r UE, diffygion pellach na ragwelwyd ar adeg ymadael â'r UE ac yn sicrhau gweithrediad cyfundrefn mewnforion ledled Prydain Fawr (GB). Byddai'n ymddangos yn briodol, felly, i arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd am fod angen iddynt weithio i'r DU gyfan, neu Brydain Fawr (lle mae rhyddid i symud), i sicrhau bod safonau cyffredin ac i leihau tarfu ar fasnachwyr, awdurdodau lleol, ac asiantaethau archwilio fel ei gilydd.

Huw, nodaf sylwadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch gwybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ond nad oedd yn y Datganiad Ysgrifenedig. Byddwn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol a ddarperir i bwyllgorau wedi'i chynnwys mewn Datganiadau Ysgrifenedig, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, yn y dyfodol.

Yn unol â RhS 30A, caiff "y pwyllgor cyfrifol" ystyried unrhyw Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, sef yn yr achos hwn, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) a phwyllgorau eraill y mae'r LJCC yn eu gwahodd i ystyried y Memorandwm. Mae RhS 30A yn darparu ymhellach bod rhaid i'r pwyllgor(au) gyflwyno adroddiad i'r Senedd cyn pen 35 diwrnod ar ôl i'r Memorandwm gael ei osod. Byddwch yn dymuno bod yn ymwybodol bod y Rheoliadau drafft yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn Senedd y DU, ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 13 Rhagfyr. Yn yr achos hwn, felly, o ystyried yr oedi wrth osod y Memorandwm, nid oes digon o amser cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar gyfer cadw at y cyfnod adrodd 35 diwrnod. Ni allaf ond ymddiheuro eto am hyn. O ganlyniad felly, os yw eich Pwyllgorau am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, gofynwn i chi adrodd i'r Senedd erbyn 12 Rhagfyr fan bellaf os gwellch yn dda.

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl mewn cyfarfod llawn am yr Offeryn Statudol hwn. Fe wnes i'r penderfyniad hwn ar y sail bod yr offeryn hwn yn mynd i'r afael â mân ddiffygion sy'n gysylltiedig ag Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, diffygion pellach nas rhagwelwyd ar adeg ymadael â'r UE ac mae'n sicrhau gweithrediad cyfundrefn fewnforio ledled Prydain Fawr. Byddai'n ymddangos yn briodol i un set o ddiwygiadau ledled Prydain Fawr gael eu gwneud gan fod angen iddynt weithio i'r DU gyfan, neu Brydain Fawr (lle mae rhyddid i symud), i sicrhau bod safonau cyffredin ac i leihau tarfu ar fasnachwyr, awdurdodau lleol, ac asiantaethau archwilio fel ei gilydd. Mae RhS 30A yn darparu y gall

unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar yr Offeryn Statudol hwn, ar ôl i'r Pwyllgorau perthnasol adrodd.

Rwy’n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, yn ogystal â phob Aelod o’r Senedd.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**020 - Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022** [Saesneg yn unig]

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 20 Hydref 2022*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Amherthnasol |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 2 Tachwedd 2022 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 1 Tachwedd 2022 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae’r Rheoliadau hyn yn cynnig diwygio cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir mewn perthynas â rheolaethau swyddogol ar fewnforion i Brydain Fawr o anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid, a chynnyrch planhigion (gan gynnwys bwyd) yn ogystal â rheolau am iechyd a lles anifeiliaid, a rheolau ar farchnata deunyddiau plannu a lluosogi, yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd. Bwriad y diwygiadau yw sicrhau bod y cyfreithiau’n gweithredu’n effeithiol yn y cyd-destun domestig er mwyn diogelu iechyd pobl ac anifeiliaid.

Er enghraifft, mae’r Rheoliadau:

- Yn gwneud darpariaeth ynghylch cosbau am fethu â chydymffurfio â rheoliadau iechyd planhigion.

- Pan fydd yr awdurdod priodol yn gallu gweithredu fel awdurdod cymwys i gynnal rheolaethau swyddogol, ni fydd angen mwyach i'r awdurdod priodol ddynodi ei hun yn awdurdod cymwys (yn hytrach, bydd yr awdurdod priodol, yn ddiofyn, yn awdurdod cymwys).

- Yn trosglwyddo swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i awdurdodau priodol domestig. Er enghraifft, rhoddir pwerau i awdurdodau priodol (Gweinidogion Cymru, yng Nghymru) wneud rheoliadau i reoli risgiau bioddiogelwch (ond nid oes gorfodaeth i wneud hynny).

- Ymestyn y cyfnodau trosiannol sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol i ganfod rhai sylweddau a gweddillion mewn cynhyrchion o darddiad anifeiliaid a fwriedir i'w bwyta gan bobl.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd yn cytuno â'r safbwynt cyffredinol a nodir yn natganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 21 Tachwedd 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn rhoi enghreifftiau ymarferol (fel y rhai a roddir uchod) o'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau pwysig i'r gyfraith ar anifeiliaid ac iechyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid a bwyd, planhigion ac iechyd planhigion, ond fe’u disgrifir yn y ffordd fwyaf cyffredinol a lefel uchel yn unig yn y datganiad ysgrifenedig.

Dylid nodi hefyd y tynnwyd y fersiwn wreiddiol o’r datganiad hwn yn ôl, felly mae’r datganiad hwn yn fersiwn wedi’i hailosod. Mewn perthynas â’r fersiwn wreiddiol, fe wnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn codi pryderon nad oedd y datganiad gwreiddiol yn darparu eglurhad defnyddiol o’r hyn y mae’r Rheoliadau yn eu gwneud mewn gwirionedd. Nid yw’r datganiad wedi’i ailosod yn darparu eglurhad defnyddiol chwaith.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**

Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd ar 21 Tachwedd 2022, gan fod y Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (yn yr achos hwn, adran 29 o Ddeddf Amrywogaethau Hadau a Phlanhigion 1964).

Mewn llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig dyddiedig 21 Tachwedd 2022, dywedodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, nad yw'n bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Cyfarfod Llawn.

Lynne Neagle AS/MS
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i roi hysbysiad cynnar ichi am Offeryn Statudol (OS) diwygio o'r enw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a fydd yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar (14 Rhagfyr 2022) i ddod i rym ar 18 Ionawr 2023, ac eithrio'r diwygiad i ddiweddaru'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd, a ddaw i rym ar 11 Gorffennaf 2024 i ganiatáu cyfnod pontio 18 mis.

Bydd yr OS arfaethedig yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol i wneud newidiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

- Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/651) fel y'u diwygiwyd,

- Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/52/EEC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 96/8/EC, 1999/21/EC, 2006/125/EC a 2006/141/EC, Cyfarwyddeb 2009/39/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 41/2009 ac (EC) Rhif 953/2009[1],

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/127 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac ynghylch gofynion o ran gwybodaeth sy'n ymwneud â bwydo babanod a phlant ifanc[Error! Bookmark not defined.], a

[1] Rheoliad yr UE a ddargedwir fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a 2020

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/128 o 25 Medi 2015 sy'n ychwanegu at Reoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer bwyd at ddibenion meddygol arbennig.

Bydd y diwygiadau hyn yn:

- diweddaru'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer copr mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru'r uned fesur a ddefnyddir ar gyfer sinc mewn atchwanegiadau bwyd
- diweddaru'r ffurfiau o niasin a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys nicotinamid ribosid clorid
- diweddaru'r ffurfiau o fagnesiwm a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu atchwanegiadau bwyd i gynnwys magnesiwm citrad malad
- diweddaru'r ffurfiau o ffolad a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- diweddaru'r ffurfiau o ffolad a ganiateir i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod i gynnwys calsiwm L-methylffolad
- safoni'r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol a
- safoni'r diffiniad o weddillion plaladdwyr a ddefnyddir yn y rheoliadau ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod a phlant ifanc.

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad a chymhlethdod diangen o'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS i'r DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn y sefyllfa hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

huw.Irranca-Davies@senedd.wales

23 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i gydsynio â dymuniad Llywodraeth y DU i wneud a gosod Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 erbyn 20 Rhagfyr.

Ar 7 Tachwedd, derbyniais lythyr oddi wrth Mark Spencer AS, Gweinidog Gwladol DEFRA, yn ceisio cydsyniad â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i ardaloedd â ffiniau penodedig gael eu sefydlu y tu allan i'r wlad y canfu plâu planhigol neu heintiau ynddi. Mae'r rhain yn fesurau bioddiogelwch pwysig a roddir ar waith ar adegau pan geir achosion o blâu planhigol neu heintiau sy'n cyfyngu ar symud pren, planhigion ar gyfer plannu neu ddeunydd coedwigaeth. Maent yn angenrheidiol oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i ardal â ffiniau penodedig gael ei sefydlu pan ganfyddir pla o fewn un o'r tiriogaethau eraill ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu, pan geir achosion o bla planhigol neu haint mewn un gwlad, yn gyfagos i'r ffin, ar hyn o bryd nid oes gan y wlad arall unrhyw bŵer i gyflwyno ardaloedd â ffiniau penodedig fel mesur bioddiogelwch.

Yn yr achos hwn, ni allai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau wrth arfer ein pwerau ein hunain oherwydd bod y pŵer i ddiwygio yn ganlyniadol i ddiwygiad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Oherwydd y gwneir Rheoliadau i Gymru o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gall y Rheoliadau hyn gael eu diwygio gan Weinidog y Goron. Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 yn cael eu gwneud o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac mae paragraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu pŵer sy'n caniatáu i ddiwygiadau canlyniadol gael eu gwneud i Reoliadau yn ôl yr angen (yn yr achos hwn, ar ôl diwygio'r Rheoliadau Iechyd Planhigion). Bydd y Rheoliadau'n gymwys o ran Cymru, Lloegr a'r Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers cael y llythyr, mae darpariaethau ychwanegol wedi'u cynnwys i gywiro mân wallau drafftio yn Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022 yn ymwneud â thatws o Lebanus nid i'w plannu.

Mae angen cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ar fyrder er mwyn diogelu bioamrywiaeth yng Nghymru. Rwyf o'r farn mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau angenrheidiol. Yn unol â Rheol Sefydlog 30C, byddaf yn gosod Datganiad Ysgrifenedig gerbron y Senedd o fewn tri diwrnod i'r dyddiad y caiff y Rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

24 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC), a fynychais yn rhithwir ar 20 Hydref, hoffwn adrodd yn fyr ar y trafodaethau.

John Swinney ASA, y Dirprwy Brif Weinidog (Llywodraeth yr Alban), a oedd yn cadeirio'r cyfarfod ar ran Kate Forbes ASA, y Gweinidog Cyllid ac Economi (Llywodraeth yr Alban), sydd ar absenoldeb mamolaeth. Roeddwn yn bresennol yn y cyfarfod ochr yn ochr â'r Gwir Anrh Edward Argar AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd a Conor Murphy ACD, y Gweinidog Cyllid (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon).

Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar yr argyfwng economaidd a chyllidol presennol. Fodd bynnag, torrwyd y cyfarfod yn fyr oherwydd ymddiswyddiad y Prif Weinidog yn ystod y cyfarfod. Yn yr amser byr oedd ar gael, pwysais am dryloywder cynnar ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU gan nodi'r goblygiadau i'n cyllideb ein hunain. Gwrthwynebais yn gryf doriadau i wariant cyhoeddus, dadleuais dros fuddsoddi mewn seilwaith a phwysleisiais fod yn rhaid i Lywodraeth y DU gyflawni ar ei hymrwymiad i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan gynnwys drwy gynyddu budd-daliadau yn unol â chwyddiant.

Nid oedd yn bosibl aildrefnu'r cyfarfod F:ISC cyn Datganiad Hydref Llywodraeth y DU, ond byddaf yn rhoi gwybod dyddiad y cyfarfod nesaf i'r Pwyllgor pan gaiff ei gadarnhau.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor hefyd fod yn ymwybodol fy mod wedi ysgrifennu at y Canghellor cyn Datganiad Hydref Llywodraeth y DU i nodi'r blaenoriaethau i Gymru, gan gynnwys amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus, targedu cymorth i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a hybu twf economaidd drwy ysgogi cyfalaf a buddsoddi gwyrdd. Ailadroddais y pwyntiau hyn yn fy nghyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, John Glen AS, ar 14 Tachwedd.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

18 Tachwedd 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 2 Tachwedd 2022, ynglŷn â'r Bil Prisiau Ynni a phroses y gwaith rhynglywodraethol blaenorol gyda Llywodraeth y DU.

Cyfleoedd cyfyngedig iawn a gafwyd i ymgysylltu â Llywodraeth y DU cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Ar 8 Medi, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Liz Truss AS (sef y Prif Weinidog bryd hynny) y cymorth i'w ddarparu i ddelio â phrisiau ynni, a hynny heb unrhyw drafodaeth ymlaen llaw ar lefel swyddogol na Gweinidogol. Ganol mis Medi, cafodd swyddogion wybod y byddai angen llunio deddfwriaeth newydd i gefnogi'r cymorth a gyhoeddwyd. Nid oedd unrhyw fanylion ar gael bryd hynny.

Cafodd yr amlinelliad o gynnwys y Bil ei rannu â swyddogion ar 6 Hydref, a chafodd y Bil ei anfon at Weinidogion a swyddogion gyda'r nos ar 11 Hydref, cyn iddo gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Hydref. Ar 12 Hydref, cawsom ail lythyr yn amlinellu dadansoddiad Llywodraeth y DU o raddfa diriogaethol y darpariaethau ynghyd â'u hasesiad o'r meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru yn glir y byddai'r ffaith na welodd y Gweinidogion ac Aelodau'r Senedd mo'r Bil ymlaen llaw yn ei gwneud yn heriol iddynt graffu ar y cynnwys yn unol â'r trefniadau arferol o ran prosesau cynnwys deddfwriaethol.

O safbwynt ymgynghori ar ôl cyflwyno'r Bil, ymatebais i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ar 18 Hydref yn ceisio ymgynghoriad ar unrhyw fesurau sy'n ymwneud â'r datganiad datganoli. Roedd fy swyddogion hefyd mewn cysylltiad â thimau polisi Llywodraeth y DU ac yn ceisio rhagor o fanylion ynglŷn â'r mecanweithiau a oedd yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, bu hynt y Bil trwy Senedd y DU yn gyflym iawn. Ar ôl ei gyflwyno ar 12 Hydref, cafodd ei drafod yn y ddau Dŷ cyn cael Cydsyniad Brenhinol ar 25 Hydref. O ganlyniad, ni chafwyd cyfle o gwbl i ddylanwadu ar gynnwys y Bil.

Er bod brys ynghylch y Bil hwn, mae patrwm ymddygiad Llywodraeth y DU wedi bod yn debyg yn achos Biliau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth bresennol y DU. Mae'r diffyg ymgynghori ystyrlon neu gyfle i ddylanwadu ar ddrafftio yn annerbyniol. Cododd Prif Weinidog Cymru ffordd Llywodraeth y DU o weithredu mewn perthynas â Chonfensiwn Sewel a materion datganoledig yn ystod ei gyfarfod cyntaf â Phrif Weinidog y DU, a byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ymgysylltu â ni yn effeithiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cydnabod y rhwystredigaeth a fynegwyd gan Aelodau'r Senedd ynghylch y ffaith na chafodd Aelodau'r Senedd lawer o amser i graffu'n ystyrlon ar ddeddfwriaeth y DU a dylanwadu arni. Rydym yn rhannu'r rhwystredigaeth honno, a byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU, gan ragweld efallai y bydd y newid yn yr arweinyddiaeth yn esgor ar berthynas rynglywodraethol fwy agored ac adeiladol wrth symud ymlaen.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

2 Tachwedd 2022

Annwyl Julie

Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Prisiau Ynni

Yn ein cyfarfod ar 24 Hydref 2022, trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Prisiau Ynni, a’r llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a’r Trefnydd at y Llywydd.

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, eich ateb, pan holwyd chi, oedd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld y Bil cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Yn ei llythyr at y Llywydd, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a’r Trefnydd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweld y Bil tan y noson cyn iddo gael ei gyflwyno i Dŷ’r Cyffredin.

Sylwn fod y Gweinidog, yn ei llythyr at y Llywydd, yn dweud y “Bydd y prinder amser sydd ar gael i’r Senedd graffu arno, oherwydd amserlen Llywodraeth y Deyrnas Unedig a’r ffaith na rannwyd y Bil ymlaen llaw, yn cael ei godi eto gyda Llywodraeth y DU.”

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau’r canlynol:

- union natur unrhyw waith rhynglywodraethol a aeth rhagddo cyn cyflwyno’r Bil gerbron Senedd y DU, gan gynnwys pryd y cafodd gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru weld y Bil;
- sut rydych wedi rhoi gwybod i Lywodraeth y DU nad ydych yn hapus â’r prinder amser a gafodd y Senedd i graffu ar y Bil yn ystod y broses cydsyniad deddfwriaethol a’r ffaith na chafwyd gweld y Bil ymlaen llaw.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn ystod y ddadl ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn fe ddywedasoch.

> *"Mewn perthynas â datganoli materion cyfansoddiadol, mae'r Bil yn tresmasu ar faterion datganoledig trwy roi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd datganoledig. O'r herwydd, mae'r dull hwn yn anghyson â'n hegwyddorion ar gyfer cydsynio i Filiau Llywodraeth y DU. Rwyf wedi galw felly ar Lywodraeth y DU i ymgynghori ar unrhyw fesurau sy'n effeithio ar feysydd datganoledig. Er fy mod yn cydnabod bod bwrw rhagddi i weithredu ar brisiau ynni yn fater brys, mae'n rhaid gweithredu trwy ymgynghori effeithiol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau'r Senedd hon yn cael eu parchu."*

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

- manylion penodol yr hyn y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth y DU o ran trefniadau ymgynghori cyn cymryd camau a fydd yn effeithio ar feysydd datganoledig;
- a yw'r Bil wedi'i ddiwygio i gynnwys darpariaeth ar gyfer proses ymgynghori o'r fath

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 16 Tachwedd 2022.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/787/22

Elin Jones AS
Drwy e-bost: Llywydd@senedd.cymru

18 Tachwedd 2022

Annwyl Lywydd,

**Y Bil Caffael**

Cyflwynwyd y Bil Caffael ("y Bil") yn Senedd y DU ar 11 Mai 2022 a dechreuodd y Bil ar ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn Senedd Cymru ar 9 Mehefin. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'w hystyried yn ystod cyfnod pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a gosodais innau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar 11 Gorffennaf.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliannau pellach i'w hystyried yn ystod y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Bydd y diwrnodau eistedd ar gyfer y cyfnod adrodd yn cael eu cynnal ar 28 a 30 Tachwedd a bydd y gwelliannau yn cael eu cyflwyno ar ddau ddyddiad ar wahân. Cyflwynwyd y set gyntaf o welliannau ar 15 Tachwedd ac rydym wedi cael gwybod y bydd yr ail set yn cael ei chyflwyno ar 21 Tachwedd, neu erbyn y dyddiad hwn.

Byddwn yn llunio un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i fynd i'r afael â'r ddwy set o welliannau gyda'r bwriad o'i osod erbyn 5 Rhagfyr, sydd bythefnos ar ôl i'r ail set o welliannau gan Lywodraeth y DU gael ei chyflwyno. Rydym yn cydnabod y golyga hyn y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei osod fwy na phythefnos ar ôl i'r set gyntaf o welliannau gael ei chyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud wrth graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil hwn, a sylwaf ein bod yn rhannu nifer o'r un pryderon.

Rwy'n parhau i gredu y gallai'r Banc chwarae rôl bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiadau i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Rydym felly wedi bod wrthi'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau synhwyrol i'r Bil – sef gwelliannau a fyddai'n sicrhau bod datganoli yn cael ei barchu.

Nodaf Gasgliad 1 yn eich Adroddiad, lle rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan.

Nodaf Gasgliadau 2 a 3 o'ch Adroddiad ac rwyf yn rhannu eich rhwystredigaeth bod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys cymalau sy'n destun pryder cyfansoddiadol, ac nad oedd pryderon o'r fath, yr oedd modd eu rhagweld, wedi eu datrys yn briodol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU.

Nodaf Argymhelliad 1, sy'n gofyn pam nad ydym wedi uwchgyfeirio materion drwy'r strwythurau rhynglywodraethol, gan gynnwys y weithdrefn datrys anghydfodau ddiwygiedig. Ers cyflwyno'r Bil drafft, cafwyd deialog adeiladol â Thrysorlys Ei Fawrhydi ynghylch gwelliannau posibl er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon, ac mae'r ddeialog honno'n parhau. Gyda hynny mewn golwg, ni fu'n rhaid uwchgyfeirio'r materion o dan sylw. Rwy'n rhannu eich rhwystredigaeth nad ydym wedi cyrraedd safbwynt cytûn hyd yma, ond yn ystod y misoedd diwethaf bu ansefydlogrwydd sylweddol yn San Steffan, sydd wedi llesteirio'r cynnydd a wnawn wrth drafod unrhyw gytundeb posibl. Mae'r ansefydlogrwydd hwn wedi arwain at oedi i daith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin oherwydd y newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol y DU, a chyhoeddiadau eraill fel Cynllun Twf 2022. Rwy'n deall y bydd y Bil yn awr yn symud ymlaen i'r Cyfnod Pwyllgor ar 22 Tachwedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac i geisio gwelliannau priodol sy'n parchu datganoli.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodaf Argymhellion 2 a 3 o'ch Adroddiad. Gallaf eich sicrhau y bydd unrhyw welliannau i'r Bil yn arwain at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall a chyfle i'r Pwyllgor graffu ac adrodd ymhellach ar y mater. Rwy'n deall y gallai hyn fod yn rhwystredig, ond gan fod y trafodaethau'n parhau, ar hyn o bryd ni allaf fod yn fwy penodol am union natur y gwelliannau y gellid eu cyflwyno, ac eithrio nodi fy mod i a'm swyddogion wedi mynegi'n glir fod rhaid mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder cyfansoddiadol mewn modd sy'n dderbyniol i mi ac, yn y pen draw, i'r Senedd.

Gallaf gadarnhau mai gwelliannau i wyneb y Bil yw'r consesiynau yr ydym yn eu ceisio.

Gallaf gadarnhau hefyd fy mod i, ynghyd â'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wedi bod wrthi'n cyfarwyddo trafodaethau â Thrysorlys EF drwy fy swyddogion. Crybwyllais y Bil hefyd yn ystod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 15 Mehefin, pan amlinellais ein pryderon am y Bil wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Gallaf eich sicrhau y byddaf fi yn y pen draw yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr hyn sydd i'w argymell i'r Senedd.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog

21 Tachwedd 2022

Annwyl Mark,

Rwyf yn ysgrifennu yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Gytundebau Rhyngwladol a ystyriwyd ar 26 Medi 2022. Bu'r adroddiad yn trafod, ymhlith cytundebau rhyngwladol eraill, yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu ac yn tynnu sylw at eich rôl mewn perthynas â "diogelwch gwladol gan gynnwys gwrthderfysgaeth a seiberddiogelwch".

Mae seiberddiogelwch yn faes sy'n datblygu'n gyflym, gyda llawer o gyfleoedd. Rwy'n edrych ymlaen at ddilyn datblygiad Canolfan Seiberddiogelwch newydd De Cymru. Bydd sector seiberddiogelwch cryf yn dod â swyddi o ansawdd uchel ac yn cefnogi llu o fusnesau arloesol.

Yn ogystal â bod yn ddiwydiant sy'n llawn bwrlwm sy'n dod i'r amlwg yn ei rhinwedd ei hun, mae seiberddiogelwch wrth gwrs hefyd yn gwbl hanfodol ar gyfer diogelu ein busnesau a chyrff y sector cyhoeddus rhag niwed posibl. Yn hynny o beth, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod gan Gymru weithlu seiberddiogelwch medrus iawn.

Yn dilyn ymlaen o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, byddwn yn awyddus i glywed eich barn am yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu.

Hoffwn hefyd gael rhagor o fanylion am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi ac yn hybu seiberddiogelwch a'r diwydiant yn ehangach. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol i'r Ganolfan, pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ddatblygu sgiliau ein gweithlu yn ymwneud â risg real, llywodraethu a sgiliau seiberddiogelwch polisi?
- A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i helpu i roi hwb i gyflogadwyedd pobl yn y diwydiant seiberddiogelwch ar ôl cymhwyso?
- Ar hyn o bryd, dynion sy'n gweithio yn y sector seiberddiogelwch yn bennaf. A fydd Llywodraeth Cymru'n cymryd unrhyw gamau i annog mwy o fenywod i weithio yn y sector?

Nodaf hefyd fod Llywodraeth y DU wedi gorchymyn Nexperia BV i werthu 86 y cant o'i gyfran yn Nexperia Newport Limited, y gwneuthurwr lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd a enwyd yn flaenorol yn Wafer Fab. Cyfeiriodd y gorchymyn at ddau reswm dros y gwerthiant gorfodol:

- Technoleg a gwybodaeth ymarferol a allai ddeillio o ailgyflwyno gweithgareddau lled-ddargludyddion cyfansawdd posibl ar safle Casnewydd, a'r potensial i'r gweithgareddau hynny danseilio galluoedd y DU; a
- Gallai lleoliad y safle hwyluso mynediad at arbenigedd technolegol a gwybodaeth ymarferol yng Nghlwstwr De Cymru ("y Clwstwr"), a gall y cysylltiadau rhwng y safle a'r Clwstwr atal y Clwstwr rhag bod yn rhan o brosiectau sy'n berthnasol i ddiogelwch cenedlaethol yn y dyfodol.

Nodaf o'r sylw yn y newyddion y dywedodd Llywodraeth Cymru fod cyhoeddiad Llywodraeth y DU wedi dod ag eglurder sydd i'w groesawu, ac mai ei blaenoriaeth yw diogelu swyddi. Gan y byddwch chi nawr wedi cael amser i ystyried ffeithiau'r mater, allech chi nodi unrhyw oblygiadau fel rydych chi'n eu gweld nhw o'r gwerthiant hwn ac unrhyw gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i hynny?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

7 Hydref 2022

Annwyl Paul

Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 26 Medi 2022, fe wnaethom drafod yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu.

Pwrpas y cytundeb hwn yw galluogi awdurdodau perthnasol mewn un Parti i'r Confensiwn i gydweithredu'n uniongyrchol ag awdurdodau a darparwyr gwasanaeth mewn Parti arall, gan gynnwys cyflymu'r broses o ddarparu data cyfrifiadurol sydd wedi'i storio drwy bwynt cyswllt 24/7. Mae hyn yn adeiladu ar y Confensiwn gwreiddiol, a gadarnhawyd yn 2011. Bydd hefyd yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer gwell cydweithrediad mewn ymchwiliadau ac achosion troseddol ac ar gyfer casglu tystiolaeth electronig ar gyfer troseddau yn ymwneud â systemau cyfrifiadurol a data.

Yn ystod ein trafodaeth ar y Confensiwn, fe wnaethom gytuno i dynnu sylw’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ato os byddwch yn dymuno gofyn am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am ei effaith ar feysydd o fewn eich cylchoedd gwaith.

Mae ein hadroddiad diweddaraf ynghlwm er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon